Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

28 Chewfror 2023

Annwyl Mr Lloyd

Diolch am fy nghroesawu i Ysgol Gynradd Ystrad Mynach ddydd Gwener, 10 Chwefror 2023.

Yn ystod ein hymweliad, fe wnaethom drafod gwaith yr ysgol o ran y Cwricwlwm i Gymru, diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a sut mae'r ysgol yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Gwnes i hyn trwy:

- Gynnal deialog broffesiynol gyda'r tîm arweinyddiaeth a chadeirydd y llywodraethwyr o ran y Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY
- Arsylwi addysgu a dysgu ar draws yr ysgol trwy deithiau dysgu, gan gynnwys arsylwi ymyrraeth
- Cynnal deialog broffesiynol gyda staff y Cyfnod Sylfaen o ran diwygio'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol
- Cynnal deialog broffesiynol gyda'r cydlynwyr ADY ynglŷn â gweithredu diwygio ADY
- Edrych ar lyfrau disgyblion a dogfennau yn gysylltiedig â dysgu a'r cwricwlwm
- Archwilio'r modd y mae'r ysgol yn defnyddio'i systemau olrhain a monitro
- Siarad â disgyblion am eu profiadau dysgu a'r cyfleoedd i arwain dysgu.

Hoffwn ddiolch i chi am y trafodaethau agored a buddiol. Trwy ein trafodaethau a'r gweithgarwch a ddigwyddodd, nodais y cryfderau canlynol:

- Datblygiad yr ysgol o ran y cwricwlwm, yn enwedig y cyfle i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain.
- Datblygiad yr ysgol o ran darpariaeth briodol yn y blynyddoedd cynnar sy'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn addas.
- Gwaith yr ysgol tuag at ddiwygio ADY, yn enwedig trylwyredd yr ysgol wrth olrhain a monitro darpariaeth.
- Ymagwedd gyfannol yr ysgol at asesu ar gyfer dysgu. Yn sgil hyn, mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn gosod eu targedau eu hunain ac yn myfyrio ar eu dysgu yn llwyddiannus.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Yn sgil f'ymweliad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ddarparu cameo [dim mwy nag un dudalen A4] yn amlinellu'ch gwaith ar olrhain a monitro darpariaeth yn drylwyr ar gyfer disgyblion ag ADY, a'r effaith a gaiff hyn ar addasu darpariaeth a sut mae'n cynorthwyo disgyblion ag ADY i wneud cynnydd.

Fel y trafodwyd yn ystod yr ymweliad, efallai yr hoffech chi fyfyrio ar:

- Y cyfleoedd a ddarperir i ddatblygu llafaredd disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith.

Dymuniadau gorau, a diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir